Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cyngor Sir Caerfyrddin
# **Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer**

I gyflawni Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995
Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol

**2025**



einpobl.sirgar.llyw.cymru

SR-82898

| Gwybodaeth | Manylion Cyngor Sir Caerfyrddin |
|---|---|
| **Swyddog yr Awdurdod Lleol** | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **Adran** | Cymunedau |
| **Cyfeiriad** | Tŷ Parc-yr-hun, Ffordd y Rhyd, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin SA18 3FB |
| **Ffôn** | 01269 598255 |
| **E-bost** | lisajjones@sirgar.gov.uk<br>AWMorgan@sirgar.gov.uk |
| **Rhif Cyfeirnod yr Adroddiad** | Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer Llandeilo, Llanelli a Chaerfyrddin |
| **Dyddiad** | Ebrill 2025 |

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer hwn wedi'i lunio fel rhan o'n dyletswyddau statudol sy'n ofynnol gan y Fframwaith Rheoli Ansawdd Aer Lleol. Mae'n amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd i wella ansawdd aer yng Nghyngor Sir Caerfyrddin rhwng 2025 a 2030.

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cyfuno dau gynllun gweithredu blaenorol o 2019 i 2025 yn Llanelli a Chaerfyrddin a 2014 i 2025 yn Llandeilo.

Mae llygredd aer yn gysylltiedig â sawl effaith andwyol ar iechyd. Mae'n cael ei gydnabod fel ffactor sy'n cyfrannu at ddatblygiad clefyd y galon a chanser. Yn ogystal, mae llygredd aer yn effeithio ar y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas: plant a phobl hŷn, a'r rhai â chyflyrau'r galon a'r ysgyfaint. Yn aml ceir cydberthynas gref â materion cydraddoldeb hefyd, gan fod ardaloedd ag ansawdd aer gwael yn aml yn llai cefnog[1][2].

Amcangyfrifir bod cost flynyddol sylweddau gronynnol i gymdeithas o ran iechyd yn y DU yn unig tua £16 biliwn.[3] Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i sicrhau i'r graddau mwyaf posibl nad yw pobl yn Sir Gaerfyrddin yn agored i aer o ansawdd gwael er mwyn gwella iechyd.

Rydym wedi datblygu camau i'w hystyried o dan 9 pwnc eang:

- Dewisiadau eraill yn hytrach na defnydd o geir preifat
- Rheolaeth ar gludo a dosbarthu nwyddau
- Canllawiau polisi a rheoli datblygu
- Hyrwyddo trafnidiaeth allyriadau isel

[1] Cydraddoldeb amgylcheddol, ansawdd aer, statws economaidd-gymdeithasol ac iechyd anadlol, 2010

[2] Ansawdd aer ac amddifadedd cymdeithasol yn y DU: dadansoddiad o anghydraddoldebau amgylcheddol, 2006

[3] Defra. Abatement cost guidance for valuing changes in air quality, May 2013

- Hyrwyddo dewisiadau teithio eraill
- Gwybodaeth i'r Cyhoedd
- Cynllunio trafnidiaeth a seilwaith
- Rheoli traffig
- Effeithlonrwydd fflyd cerbydau

Ein blaenoriaethau yw gwella seilwaith a rheoli traffig er mwyn lleihau tagfeydd ac allyriadau. Gwella llwybrau beicio a throetffyrdd i gerddwyr er mwyn hyrwyddo dewisiadau teithio eraill ac anelwn at ymchwilio i ddulliau o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd er mwyn helpu i annog newid mewn ymddygiad. Rydym am annog mwy o bobl i ddefnyddio cerbydau trydan ac felly bydd yn flaenoriaeth darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan ychwanegol yng Nghaerfyrddin a Llanelli ynghyd â phrif drefi eraill ledled y sir.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd datblygiadau newydd i economi gref a'r cydbwysedd y mae angen mynd i'r afael ag ef, rhwng mesurau i leihau traffig a pheidio ag annog ymwelwyr i beidio dod i ganol y trefi. Felly, bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i wella ansawdd yr aer lle bynnag y bo modd, drwy'r broses ddatblygu gan ddefnyddio polisi a chanllawiau cynllunio.

Yn y Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer hwn, rydym yn amlinellu sut ydym yn bwriadu mynd i'r afael â phroblemau ansawdd aer sydd o fewn ein rheolaeth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod llawer o feysydd polisi ansawdd aer sydd y tu hwnt i'n dylanwad (megis safonau allyriadau cerbydau y cytunwyd arnynt yn Ewrop), ond efallai fod gennym dystiolaeth ddefnyddiol ar eu cyfer, ac felly byddwn yn parhau i weithio gyda'r llywodraeth ranbarthol a'r llywodraeth ganolog ar bolisïau a materion sydd y tu hwnt i ddylanwad uniongyrchol Sir Gaerfyrddin.

## Cyfrifoldebau ac Ymrwymiad

Paratowyd y Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer hwn gan Is-adran Diogelu'r Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin gyda chefnogaeth a chytundeb y swyddogion a'r adrannau canlynol:

- Rheolwr y Strategaeth Drafnidiaeth a Seilwaith, yr Amgylchedd

- Rheolwr Priffyrdd a Chludiant, yr Amgylchedd
- Swyddogion Cynllunio, Rheoli Datblygu
- Swyddogion Blaen-gynllunio, yr Amgylchedd
- Rheolwr Diogelwch ar y Ffyrdd a Thraffig, Trafnidiaeth a Pheirianneg
- Peiriannydd Cynorthwyol Rhanbarth y Gorllewin, Asiant Cefnffyrdd De Cymru

Mabwysiadwyd y Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer hwn gan Aelodau o Bwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin.

Bydd y Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer hwn yn destun adolygiad blynyddol, arfarniad o gynnydd ac adroddiad i Bwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd. Caiff cynnydd bob blwyddyn ei adrodd i Lywodraeth Cymru yn yr Adroddiadau Cynnydd Blynyddol a lunnir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, fel rhan o'n dyletswyddau statudol i Reoli Ansawdd Aer Lleol.

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer hwn, anfonwch nhw at Lisa Jones:

Rhif Ffôn: 01269 598255

E-bost: lisajjones@sirgar.gov.uk

## Tabl Cynnwys

**Crynodeb Gweithredol ............ i**

Cyfrifoldebau ac Ymrwymiad ............ ii

**1. Rhagarweiniad ............ 1**

**2. Crynodeb o Ansawdd Aer Presennol Cyngor Sir Caerfyrddin ............ 2**

2.2 Cyd-destun Cymunedau ............ 8

**3. Blaenoriaethau Ansawdd Aer Cyngor Sir Caerfyrddin ............ 9**

3.1 Cyd-destun Iechyd Cyhoeddus ............ 9

3.2 Cyd-destun Cynllunio a Pholisi ............ 14

3.3. Strategaeth Ansawdd Aer Leol/Ranbarthol ............ 15

3.4 Cynlluniau a Strategaethau Trafnidiaeth Lleol ............ 16

3.5 Ansawdd Aer a Theithio Llesol ............ 16

3.6 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y Dyfodol ............ 17

3.7 Cynlluniau a Strategaethau Teithio Llesol ............ 17

3.8 Cynlluniau a Strategaethau Seilwaith Gwyrdd ............ 17

3.9 Strategaethau Newid Hinsawdd ............ 18

3.10 Dosrannu Ffynonellau ............ 20

3.11 Gostyngiad Gofynnol mewn Allyriadau ............ 22

3.12 Gwerthoedd canllaw ansawdd aer Sefydliad Iechyd y Byd ac amcanion ansawdd aer cenedlaethol presennol. ............ 22

3.13 Blaenoriaethau Allweddol ............ 24

**4. Datblygu a Gweithredu Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer Cyngor Sir Caerfyrddin ............ 27**

4.1 Ymgynghoriad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ............ 27

4.2 Grŵp Llywio ............ 28

**5. Mesurau'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer ............ 30**

**6. Atodiad A: ............ 35**

**7. Atodiad B: Mapiau o Ffiniau Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ............ 38**

**8. Atodiad C Ymateb i'r Ymgynghoriad ................................................................ 41**

**9. Atodiad D: Rhesymau dros Beidio â Dilyn Mesurau'r Cynllun Gweithredu ........................................................................................................ 42**

**10. Atodiad E: Ychwanegwch Atodiadau Ychwanegol yn ôl yr Angen> ............ 43**

**Rhestr Termau .............................................................................................. 44**

**Cyfeirnodau.................................................................................................... 45**

## Rhestr o Dablau

Tabl 3-1 Amcan Llesiant a'r Effaith ar Ansawdd Aer....11

Tabl 3-2 Amcan Cenedlaethol Presennol a Thargedau Sefydliad Iechyd y Byd....23

Tabl 3-3 Aliniad Amcanion a Blaenoriaethau....24

Tabl 1. - Ymgynghoriad wedi'i gynnal....27

Tabl 5.1 - Mesurau Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer....31

## Rhestr o Ffigurau

Ffigur 2-1 - Tuedd Chwe Mlynedd yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llanelli (canlyniadau $NO_2$ uchaf)....3

Ffigur 2-2 Tuedd Chwe Mlynedd yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin (canlyniadau $NO_2$ uchaf)....3

**Ffigur 2-3: Tuedd Chwe Mlynedd yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo (canlyniadau $NO_2$ uchaf)**....4

Ffigur 2-4 Gorllewin Caerfyrddin....5

Ffigur 2-5 Dwyrain Caerfyrddin....5

Ffigur 2-6 Ardal broblemus Llanelli....6

Ffigur 2-7 Heol y Sandy....6

Figure 2-8 Llandeilo hot spots 2014....7

Figure 2-9 Llandeilo hot spot 2024....7

Ffigur 3-1 Dosrannu ffynonellau yn Heol Felinhoel, Llanelli....20

Ffigur 3-2 Dosrannu ffynonellau yn Heol y Prior, Caerfyrddin....21

Ffigur 3-3 Dosrannu ffynonellau yn Stryd Rhosmaen, Llandeilo....21

# 1. Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r camau y bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn eu rhoi ar waith rhwng 2025 a 2030 er mwyn lleihau crynodiadau llygryddion aer a'r graddau y daw pobl i gysylltiad â llygredd aer, a thrwy hynny gael effaith gadarnhaol ar iechyd ac ansawdd bywyd trigolion ac ymwelwyr â threfi Llandeilo, Caerfyrddin a Llanelli yn Sir Gaerfyrddin.

Fe'i datblygwyd i gydnabod y gofyniad cyfreithiol sydd ar yr awdurdod lleol i weithio tuag at amcanion y Strategaeth Ansawdd Aer o dan Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a rheoliadau perthnasol a wnaed o dan y rhan honno ac i fodloni gofynion y broses statudol Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM).

Bydd y Cynllun hwn yn cael ei adolygu bob pum mlynedd fan bellaf, a bydd y cynnydd ar y mesurau a bennwyd yn y Cynllun hwn yn cael ei gofnodi'n flynyddol yn adroddiad cynnydd blynyddol Ansawdd Aer Sir Gaerfyrddin.

*Fel yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, mae'n bleser gen i gyhoeddi Cynllun Ansawdd Aer Sir Gaerfyrddin. Mae aer glân yn hanfodol i'n hiechyd a'n llesiant – nid yn unig ar gyfer heddiw, ond ar gyfer y cenedlaethau i ddod. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld gwelliannau calonogol yn ansawdd aer ledled y sir, yn sgil gwaith caled ein tîm ymroddedig a'r partneriaethau cryf yr ydym wedi'u meithrin gyda chymunedau lleol, sefydliadau a chyrff cyhoeddus. Gyda'n gilydd, rydym wedi cyflawni gostyngiadau ystyrlon mewn llygredd aer, gan greu amgylchedd mwy iach i bawb. Mae'r cynllun hwn yn nodi ein hymrwymiad parhaus i aer glanach, strydoedd mwy diogel, a dyfodol mwy cynaliadwy. Gadewch i ni barhau i symud ymlaen – i'n teuluoedd, ein cymunedau, a'r blaned y mae pob un ohonom yn ei rhannu.*

*Aled Vaughan Owen*



# 2. Crynodeb o Ansawdd Aer Presennol Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin 3 Ardal Rheoli Ansawdd Aer ddynodedig.

- Llandeilo
- Caerfyrddin
- Llanelli

Mae'r ardaloedd hyn wedi'u dynodi oherwydd lefelau uchel o nitrogen deuocsid ($NO_2$), a achosir yn bennaf gan allyriadau traffig ffyrdd. Mae'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer yn cydgrynhoi strategaethau o adroddiadau blaenorol i gyflwyno dull unedig o wella ansawdd aer ar draws yr ardaloedd hyn. Nod y cynllun yw amlinellu ffynonellau llygredd, asesu eu heffaith, a chynnig mesurau lliniaru.


Mae gwelliant parhaus wedi bod yn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer Sir Gaerfyrddin o ran lefelau $NO_2$ dros y 5-7 mlynedd diwethaf. Mae Adroddiadau Cynnydd Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin wedi dangos bod ansawdd aer yn parhau i wella flwyddyn ar ôl blwyddyn. Fodd bynnag, bydd pandemig COVID-19 wedi cael effaith ar y data hwn ac mae'n bosibl nad yw'n cynrychioli tueddiadau hirdymor.

Mae **Atodiad A** yn dangos data ar gyfer 3 Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn y pum mlynedd diwethaf a thueddiadau pob ardal broblemus ers iddi gael ei nodi'n Ardal Rheoli Ansawdd Aer


Arhosodd crynodiad cyfartalog blynyddol nitrogen deuocsid ar gyfer pob tiwb tryledriad mewn derbynyddion preswyl yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2023 yn is na'r amcan ansawdd aer o 40µg/m$^3$. Mae hyn yn gyson â'r hyn a welwyd ers 2020 ar draws pob lleoliad monitro ac mae'n bosibl ei bod yn cynrychioli dechrau taith gydymffurfio barhaus a fyddai'n dod i ben drwy ddirymu'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer.

Mae Ffigurau 2-1 - 2-3 isod yn dangos y cyfartaledd blynyddol nitrogen deuocsid a arsylwir ar gyfer y lleoliadau tiwb lefel uchaf rhwng 2019 a 2024.

**Ffigur 2-1 - Tuedd Chwe Mlynedd yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llanelli (canlyniadau $NO_2$ uchaf)**




**Ffigur 2-2 Tuedd Chwe Mlynedd yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin (canlyniadau $NO_2$ uchaf)**





DRAFT

Yn yr un modd â Llanelli, gwnaeth y rhan fwyaf o safleoedd yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin, weld gostyngiad mewn $NO_2$ o gymharu â blynyddoedd blaenorol, a

2023 oedd y flwyddyn fwyaf tebyg i'r canlyniadau a welwyd yn ystod 2020.2019 oedd y flwyddyn gyntaf lle roedd pob lleoliad monitro yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo wedi disgyn yn is na'r amcan ansawdd aer blynyddol ac mae wedi cynnal y gostyngiad hwn ymhellach i 2023.


**Ffigur 2-3: Tuedd Chwe Mlynedd yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo (canlyniadau $NO_2$ uchaf)**





Dangosir ardaloedd map ffiniau Ardal Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer Llandeilo, Caerfyrddin a Llanelli yn Atodiad B. Maent yn cwmpasu ardal llawer ehangach na'r union ardaloedd gormodiant. Mae hyn oherwydd efallai mai dim ond symud y broblem y gallai unrhyw ymyriadau i wella'r ardal ormodiant ei wneud, neu mae'r dull i wneud unrhyw welliant yn galw am weithredu dros ardal fwy o lawer na'r union ardal ormodiant ei hun. Mae ffigurau 2-4, 2-5 a 2-6 isod yn nodi (mewn lliw glas) yr union ardaloedd gormodiant blaenorol ar gyfer y ddwy dref. Maent yn parhau i fod yn ardaloedd problemus i'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer gan eu bod yn parhau i adrodd lefelau uwch o $NO_2$ o gymharu â safleoedd eraill, er nad ydynt yn uwch na'r Amcan Ansawdd Aer.

DRAFT

**Ffigur 2-4 Gorllewin Caerfyrddin**




**Ffigur 2-5 Dwyrain Caerfyrddin**





Mae'r ardaloedd problemus a nodwyd gan y rhannau mewn glas ar y mapiau yn Ffigurau 2-4 a 2-5 uchod yn ardaloedd daearyddol bach â chyfyngiadau amrywiol (megis palmentydd cul ac adeiladau yn agos at y briffordd) sy'n cyfyngu'n fawr ar unrhyw ymyriadau sylweddol a fyddai'n cyfrannu tuag at leihau $NO_4$ ar y raddfa sy'n ofynnol. Mae gan y ddau ddarn o ffordd raddiant gyda chylchfannau yn eu rhan isaf a chroesfannau i gerddwyr yn rhan uchaf y darn o'r ffordd. Byddai defnyddio llwybrau eraill ar gyfer nifer o'r siwrneiau a wneir ar hyd y rhannau ffordd hyn yn helpu i wella'r sefyllfa. Tua Gorllewin Caerfyrddin agorwyd ffordd gyswllt Gorllewin Caerfyrddin ym mis Mawrth 2019.

Mae'r ardal broblemus a nodir gan yr ardal las sydd ar y map yn Ffigur 2-6 isod yn cynnwys lle mae gwaelod Heol Felinfoel yn cwrdd â Stryd Thomas a chyffordd Gelli

Onn. Ardal ddaearyddol fechan yw hon sydd â chyfyngiadau amrywiol (megis palmentydd cul ac adeiladau agos at y briffordd) ynghyd â bod yn brif gyffordd ar gyfer llwybrau sy'n croesi'r dref o'r dwyrain i'r gorllewin ac o'r gogledd i'r de. Byddai defnyddio llwybrau eraill ar gyfer nifer o'r siwrneiau a wneir ar hyd y rhannau ffordd hyn hefyd yn helpu i wella'r sefyllfa.

**Ffigur 2-6 Ardal broblemus Llanelli**




**Ffigur 2-7 Heol y Sandy**




Mae Ffigur 2-7 yn dangos Heol y Sandy, Llanelli, sydd wedi'i chynnwys hefyd o fewn ffiniau'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer Llanelli, ac mae'r darn hwn o ffordd, yn ogystal â bod yn brif ffordd o Ben-bre a Phorth Tywyn i Lanelli, yn cynnwys rhes o dai teras â set o oleuadau traffig yn y canol. Mae gwaith gwella wedi'i gynnig ar gyfer yr

heol hon i helpu i liniaru tagfeydd a gwella diogelwch cerddwyr. Rhoddir ystyriaeth ofalus i ddatblygiadau a allai gynyddu teithio trwy'r ardal hon.

Mae'r ardaloedd problemus wedi aros yr un fath i raddau helaeth ers i'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer gael eu dynodi, er bod y lefelau $NO_2$ a adroddwyd wedi gwella'n sylweddol.

Mae Ffigurau 2-8 a 2-9 isod yn dangos sut y mae Llandeilo wedi newid. Yn 2014 roedd yr ardal broblemus mewn coch yn uwch na'r amcanion, ac yn 2023 roedd yr holl safleoedd yn cydymffurfio ac mae'r lefelau uchel yn parhau i fod o fewn yr ardal mewn lliw glas yn bennaf.

**Figure 2-8 Llandeilo hot spots 2014**




**Figure 2-9 Llandeilo hot spot 2024**



## 2.2 Cyd-destun Cymunedau

Mae gan Sir Gaerfyrddin ystod amrywiol o gymunedau sy'n byw o fewn ei ffiniau ac mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer sydd ganddi.

Mae Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys y cymunedau lleiaf difreintiedig a mwyaf difreintiedig yn y Sir; ac felly mae angen i driniaeth y cyngor o ansawdd aer fod yn gynhwysol o bob cymuned o fewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. Cydnabyddir nad yw ffin ddaearyddol na statws amddifadedd yn cyfyngu ar faterion ansawdd aer yn Sir Gaerfyrddin. Y goblygiad yw lle mae adnoddau yn gyfyngedig efallai y bydd achos dros fynd i'r afael â materion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gyntaf; ond nod yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yw bod yr holl fesurau i leihau allyriadau sydd ar waith ar hyn o bryd a'r rhai y gellir eu gweithredu yn cael effaith mor eang â phosibl ar draws pob Ardal Rheoli Ansawdd Aer e.e. gwasanaethau bysiau trydan.

Cymunedau ysgol yw rhai o'r grwpiau mwyaf agored i ansawdd aer gwael ac mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i ddatblygu ymyriadau ansawdd aer o dan thema Addysg ac Ymwybyddiaeth. Rydym fel awdurdod wedi bod yn llwyddiannus gyda Chronfa Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023 a 2024. Mae'r prosiectau a gyflwynwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf trwy gronfa Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol wedi cynnwys y canlynol -:

- Gosod monitorau Ansawdd Aer amser real y tu allan i 8 ysgol. Mae hyn wedi galluogi dros 2000 o ddisgyblion i gael mynediad at ddata ansawdd aer amser real yng nghyffiniau eu hysgolion, sydd wedi eu galluogi i wneud rhywfaint o waith prosiect lleol ynghylch ansawdd aer.

- Rhoi sgyrsiau addysgiadol i ysgolion cynradd i godi ymwybyddiaeth disgyblion o ansawdd aer a'i effaith ar iechyd

- Darparu mynediad i'r Traciwr Teithio WoW ar gyfer 2500 o ddisgyblion. Mae hyn yn annog disgyblion ysgol gynradd i ddefnyddio dulliau teithio llesol i'r ysgol ac oddi yno.

- Abbie Ayre and the Shed of Science a oedd yn rhaglen addysg rhyngweithiol am ansawdd aer ar gyfer disgyblion blwyddyn 5. Cyflwynwyd hyn i 789 o fyfyrwyr dros 20 o wahanol ysgolion cynradd.

# 3. Blaenoriaethau Ansawdd Aer Cyngor Sir Caerfyrddin

## 3.1 Cyd-destun Iechyd Cyhoeddus

Yn 2019 disgrifiodd Sefydliad Iechyd y Byd lygredd aer fel y risg amgylcheddol fwyaf i'n hiechyd byd-eang, ac mae tystiolaeth gynyddol yn dangos bod ansawdd aer gwael yn cyfrannu'n sylweddol at sawl salwch y gellir ei atal a marwolaethau cynnar. Mae llygredd aer yn bygwth pob oedran ac yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed fel pobl hŷn, plant, menywod beichiog a'r rhai sydd â chyflyrau meddygol presennol. Yn y tymor hir gall bod yn agored i lygredd aer achosi cyflyrau cronig fel clefydau cardiofasgwlaidd ac anadlol yn ogystal â chanser yr ysgyfaint, gan arwain at ddisgwyliad oes llai. Yng Nghymru, mae'r baich amcangyfrifedig o ansawdd aer gwael ar farwolaethau cynnar mewn ystod cyfatebol o rhwng 1,000 a 1,400 o farwolaethau bob blwyddyn ac mae DEFRA wedi amcangyfrif bod Nitrogen Deuocsid ($NO_2$) yn cyfrannu at fyrhau bywydau tua 5 mis ar gyfartaledd. Mae targedu rheoli ansawdd aer effeithiol hefyd yn gofyn am ddealltwriaeth o'r berthynas rhwng llygredd aer a'r penderfynyddion iechyd ehangach, gan fod tystiolaeth yn awgrymu bod ansawdd aer gwael yn aml yn gysylltiedig â ffactorau economaidd-gymdeithasol ehangach.

Yn dilyn gwaith a wnaed i lunio Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin, cyhoeddodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2023-2028. Mae hyn yn seiliedig i raddau helaeth ar y 7 nod llesiant a'r pum ffordd o weithio (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Yn 2022 sgoriodd y dangosydd Ansawdd Aer ar gyfer Sir Gaerfyrddin 5 ar gyfer $NO_2$, sy'n dda o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 8 yng Nghymru.

Mae Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin 2022–2027 yn nodi ymhellach ei amcanion llesiant, sy'n ceisio gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yn y sir yn barhaus. Diweddarwyd y strategaeth hon yn 2022 yn dilyn ymgynghoriad yn ystod haf 2022.

Mae Strategaeth Gorfforaethol 2022-27 Sir Gaerfyrddin yn cynnwys ei hamcanion llesiant ar gyfer y cyfnod. Mae Ansawdd Aer yn effeithio ar dri o'r pedwar amcan llesiant sydd wedi'u nodi.

**Amcanion Llesiant 1 (Dechrau'n Dda)** - Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd,

**Amcan Llesiant 2 (Byw a Heneiddio'n Dda)** - Gallu ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda ac

**Amcan Llesiant 3 (Cymunedau Ffyniannus)** - Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus.

DRAFT

**Tabl 3-1 Amcan Llesiant a'r Effaith ar Ansawdd Aer**

| Amcan Llesiant | Yr Effaith ar Ansawdd Aer | Ein Gweithredoedd |
|---|---|---|
| Amcan Llesiant 1 - Dechrau'n Dda | Rydym yn cydnabod yr effaith y gall ansawdd aer gwael ei chael ar ddatblygiad, galluoedd gwybyddol ac iechyd plant. Mae plant yn arbennig o agored i niwed, hyd yn oed o ddatblygiad y ffetws wrth i'w hysgyfaint, eu horganau a'u hymennydd ddatblygu. | • Cysylltu ag ysgolion a'r Fenter Ysgolion Iach i hyrwyddo ymgyrchoedd teithio llesol fel diwrnodau cerdded/beicio i'r ysgol a'r Diwrnod Cenedlaethol Aer Glân;<br>• parhau i astudio ansawdd aer o amgylch iard yr ysgol yn ein Hardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, gan godi ymwybyddiaeth, annog teithio llesol i'r ysgol a chymryd camau i atal segura wrth gatiau'r ysgol. Nid ydym eisiau traffig o amgylch giât yr ysgol, mae gweithgareddau gorfodi ar waith i atal rhieni/gofalwyr rhag mynd yn groes i Orchmynion Rheoleiddio Traffig wrth giât yr ysgol;<br>• Annog pobl i gerdded i'r ysgol drwy ddatblygu rhaglen newid ymddygiad a gweithio gyda chymunedau i ddatblygu ceisiadau am gyllid seilwaith i ddatblygu llwybrau diogel i'r ysgol.<br>• Hyrwyddo'r defnydd o gynlluniau teithio i'r ysgol. |
| Amcan Llesiant 2 (Byw a Heneiddio'n Dda) | Mae cymunedau cynaliadwy yn cefnogi pobl i fyw bywydau iach a gall gwell cysylltedd cerddwyr gefnogi opsiynau teithio llesol i leihau llygredd traffig. Mae iechyd da yn ffactor allweddol i heneiddio'n dda. Mae cyflyrau salwch mwy difrifol sy'n gysylltiedig â llygredd aer yn fwy tebygol o effeithio ar bobl hŵn gan ei fod yn gallu achosi clefyd yr ysgyfaint a'r galon, ac mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn awgrymu y gall | • Parhau i fonitro ansawdd aer (nitrogen deuocsid) ar gyfer trigolion ac ymwelwyr â'r Sir. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy asesiadau rheolaidd a, lle bo angen, rhaglenni samplu;<br>• Hyrwyddo creu lleoedd cynaliadwy drwy'r broses ddatblygu a'n Cynllun Datblygu Lleol; 7<br>• Parhau i wella Cysylltiadau Cerdded a Beicio;<br>• Darparu Llwybrau Mwy Diogel mewn cymunedau i annog a chefnogi teithio llesol fel yr uchod; a |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | ardaloedd gydag ansawdd aer gwael iawn gynyddu'r risg o ddementia. | • Chreu opsiynau allyriadau isel drwy ddarparu cynlluniau llogi beiciau trydan a chynyddu mynediad i'r pwyntiau gwefru cerbydau trydan ledled y Sir. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu seilwaith i gefnogi twf ceir trydan<br>• Mabwysiadu ymagwedd ataliol i gefnogi iechyd a llesiant yn y Sir; a<br>• Thrwy adolygiadau ac asesu rheolaidd o'n llwybrau trafnidiaeth, diwydiant a chymunedau sy'n datblygu, monitro risgiau ansawdd aer i leihau amlygiad hirdymor i lygryddion a allai effeithio'n andwyol ar iechyd |
| Amcan Llesiant 3 (Cymunedau ffyniannus) | Mae llygredd aer yn cael effeithiau uniongyrchol ar yr amgylchedd naturiol, gan gyfrannu at newid yn yr hinsawdd, lleihau cynnyrch cnydau, a llygru cefnforoedd. Bydd aer glanach o fudd uniongyrchol i anifeiliaid a chynefinoedd yn ogystal â chreu amgylchedd gwell i bawb fyw, gweithio a ffynnu ynddo. Gall cartrefi o ansawdd da, ynni-effeithlon hefyd gael effaith sylweddol ar leihau'r defnydd o danwydd sy'n llygru'r awyrgylch. Gall Seilwaith Priffyrdd ddylanwadu ar lygredd aer drwy ostwng terfynau cyflymder, lleihau tagfeydd, hyrwyddo teithio llesol gyda beiciau a throedffyrdd diogel. Gall mynediad at bwyntiau gwefru cerbydau trydan ledled y Sir hefyd gefnogi'r defnydd o gerbydau allyriadau is | • Drwy'r broses gynllunio, hyrwyddo lleoedd cynaliadwy gyda chysylltiadau da i gerddwyr, seilwaith gwyrdd, cynlluniau teithio ac opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy;<br>• Diogelu ein hamgylchedd a'n cynefinoedd ecolegol rhag diwydiant o dan y drefn trwyddedu amgylcheddol;<br>• Asesu effeithiau datblygu ar ansawdd aer lleol a chynefinoedd naturiol o'r camau adeiladu a gweithredu;<br>• Monitro Nitrogen Deuocsid yn ein Hardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, rhai o'n ffyrdd prysuraf ac asesu effeithiau posibl eraill;<br>• Defnyddio canllawiau polisi a rheolaeth ddatblygiadol i leihau effeithiau llygredd a gwella ansawdd aer lle bo modd; a Gwella'r rhwydwaith beiciau drwy fabwysiadu cynlluniau llogi beiciau cyhoeddus;<br>• Ehangu ein llwybrau teithio llesol a pharhau i ddarparu llwybrau mwy diogel i gymunedau;<br>• Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu i gael ffordd osgoi yn Llandeilo er mwyn gwella ansawdd aer a diogelwch ffyrdd yn nhref Llandeilo;<br>• Parhau i weithio gyda Phartneriaid Awdurdod Lleol Rhanbarthol i ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer Metro i Dde Gorllewin Cymru; |

DRAFT


| | | |
|---|---|---|
| | | • Lleihau terfynau cyflymder, gwella diogelwch cerddwyr o amgylch ysgolion ac ardaloedd preswyl gyda pharthau 20mya;<br>• Gweithio gydag Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru i gyflawni Gwelliannau Strategol i'r Priffyrdd;<br>• • Ceisio gwella allyriadau o'n fflyd ein hunain; a<br>• Cynyddu nifer y pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar draws y Sir |

## 3.2 Cyd-destun Cynllunio a Pholisi

Mae canllawiau clir Polisi Cynllunio Ansawdd Aer ar amrediad o faterion Diogelu'r Amgylchedd wedi'u cynnwys o fewn Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 (2024), er mwyn sicrhau'r iechyd a llesiant gorau drwy ddatblygu cynaliadwy, gan fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwneud lleoedd yn fwy cydnerth. Mewn perthynas ag effaith datblygiad ar Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer; lleihau amlygiad i lygredd aer trwy ymgorffori dyluniad a lliniaru da. Mae'r hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy wedi'i fabwysiadu yn y cynllun cyflawni Ansawdd Aer hwn i leihau'r angen i deithio a blaenoriaethu teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy trwy'r broses gynllunio. Gellir defnyddio PCC a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn uniongyrchol yn y broses o wneud penderfyniadau lle mae CDLl wedi dyddio o ran mater neu nad yw'n sôn amdano.

Lle bynnag y bo modd, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn manteisio ar gyfleoedd i wella ansawdd yr aer drwy'r broses ddatblygu ac yn gwneud pob ymdrech i atal effeithiau sylweddol ar ansawdd yr aer o ganlyniad i ddatblygiadau newydd. Caiff hyn ei gyflawni i gefnogi canllawiau Polisi Llywodraeth Cymru 'Rheoli Ansawdd Aer Lleol yng Nghymru' Mehefin 2017, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12) a Chynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Gaerfyrddin, ac yn hyn o beth y polisi CDLl mwyaf nodedig mewn perthynas ag Ansawdd Aer yw EP2: Llygredd. Cymerir camau hefyd i sicrhau nad yw datblygiadau newydd a gynigir yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn mynd yn groes i'r cynllun gweithredu hwn nac yn gwneud unrhyw rai o'r mesurau yn anymarferol.

DRAFT




Ar hyn o bryd nid oes gan Gyngor Sir Caerfyrddin unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sy'n ymwneud ag Ansawdd Aer. Fodd bynnag, fel rhan o'r ymgynghoriad hwn ein nod yw cynnig bod CCA ar gyfer Ansawdd Aer yn cael ei weithredu ar gyfer Cyngor Sir Gaerfyrddin.

## 3.3. Strategaeth Ansawdd Aer Leol/Ranbarthol

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin wedi datblygu Strategaeth Ansawdd Aer Leol benodol. Mae'r gwaith ansawdd aer yn seiliedig ar y strategaethau cenedlaethol ar gyfer monitro ansawdd aer ac mae hwn wedi'i ddefnyddio fel Cynllun Ansawdd Aer y sir. Mae'r gwaith ansawdd aer yn cael ei adolygu'n gyson i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn briodol. Mae dynodi'r Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn Llandeilo, Llanelli a Chaerfyrddin a sefydlu'r grwpiau cynllunio gweithredu a llywio wedi helpu i feithrin y cysylltiadau â rhanddeiliaid mewnol.

Mae cael mwy o gysylltiadau mewnol wedi helpu i godi proffil gwaith ansawdd aer fel bod mwy o gydweithredu rhwng adrannau yn arwain at well cyfathrebu a threfniadau gweithio.

## 3.4 Cynlluniau a Strategaethau Trafnidiaeth Lleol

Yn y gorffennol, roedd yr awdurdod yn llunio Cynllun Trafnidiaeth Lleol, a gafodd ei ymgorffori wedyn mewn Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol o dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru. Roedd y cynllun rhanbarthol hwn yn cwmpasu awdurdodau unedol Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, a oedd gyda'i gilydd yn ffurfio Consortiwm Cludiant Integredig De-orllewin Cymru (SWWITCH).

Fodd bynnag, ar ôl cael gwared ar gyllid ar gyfer SWWITCH, peidiodd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol â chael ei ddefnyddio yn yr un modd. Er gwaethaf hyn, parhaodd y trefniant partneriaeth rhwng yr awdurdodau, gan arwain datblygiad Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe (2015-2020). Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y cynllun hwn drwy fynd i Joint LTP 300115.

## 3.5 Ansawdd Aer a Theithio Llesol

Mae'r gwaith Rheoli Ansawdd Aer Lleol a fwydodd yn flaenorol i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn parhau i gael ei ystyried o fewn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol. Mae polisïau ac ymyriadau seilwaith wedi'u cynllunio i wella ansawdd aer a lleihau llygredd o ffynonellau trafnidiaeth.

Mae Sir Gaerfyrddin yn cydnabod $NO_2$ o draffig ffyrdd fel prif bryder. O ganlyniad, mae mentrau teithio llesol yn cael eu hannog yn gryf. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi a gwella llwybrau cerdded a beicio, gan gynnwys cyhoeddi mapiau i gysylltu lleoliadau allweddol megis gweithleoedd a chanolfannau addysg. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cyhoeddi ei fapiau rhwydwaith integredig, sydd ar gael drwy fynd i https://cyclewalkcarms.engaged.space/. Mae hyn yn cyd-fynd â nod hirdymor y Cyngor o ddod yn Ganolbwynt Beicio Cymru.

Gellir cael rhagor o wybodaeth yma am strategaeth feicio Sir Gaerfyrddin a thwristiaeth feicio.

## 3.6 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y Dyfodol

Ym mis Ionawr 2022, ffurfiwyd Cyd-bwyllgor Corfforedig newydd i oruchwylio cydweithrediad rhanbarthol. Fel rhan o hyn, mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn paratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. Dechreuwyd ymgynghori yn 2024, ac ar ôl cael ei fabwysiadu, bydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cymryd lle Cynllun Trafnidiaeth Lleol 2015. Ymgynghoriad

## 3.7 Cynlluniau a Strategaethau Teithio Llesol

Cydnabyddir mai $NO_2$ o draffig ffyrdd yw'r prif destun pryder ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Felly dylid croesawu unrhyw fesurau sy'n gallu annog a hwyluso dulliau trafnidiaeth amgen. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn rhoi gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i nodi a gwella llwybrau cerdded a beicio, sy'n cynnwys cyhoeddi mapiau i nodi llwybrau addas, ac i ddarparu cysylltiadau â lleoliadau allweddol, megis mannau gwaith, addysg ac ati

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cyhoeddi ei fapiau rhwydwaith integredig, a gellir dod o hyd iddynt yma: https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/teithio-ffyrdd-a-pharcio/teithio-llesol/#.XGWBuFz7TIU

Mae hyn yn cyd-fynd â nod hirdymor y cyngor o ddod yn Ganolbwynt Beicio Cymru.

## 3.8 Cynlluniau a Strategaethau Seilwaith Gwyrdd

Maer Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas wedi'i datblygu a gellir dod o hyd iddi yma lle mae pob ased seilwaith gwyrdd ar draws y Sir wedi cael ei fapio. Bydd hyn yn helpu i nodi meysydd lle gellid gweithredu a phlannu cynlluniau plannu coed mewn seilwaith gwyrdd ardal (at ddibenion monitro ac adrodd) ledled y Sir.

Mae'r Strategaeth yn adeiladu ar dystiolaeth ar gost-effeithiolrwydd a manteision defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael ag ystod o broblemau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a llesiant. Mae cynllluniau gweithredu wedi'u datblygu i wneud gwelliannau ar draws wyth tref allweddol yn y Sir.

Mabwysiadodd y Cyngor ganllawiau cynllunio atodol ym mis Medi 2016, 'Creu Ymdeimlad o Le a Dylunio', sy'n annog datblygwyr i fabwysiadu dull seilwaith gwyrdd i gefnogi polisi GP1 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer 'Cynaliadwyedd a Dylunio o Ansawdd Uchel'.


Mae CCA ar gyfer integreiddio Seilwaith Gwyrdd a Glas o fewn datblygiadau newydd hefyd wedi'u drafftio a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus 8 wythnos cyn iddynt gael eu mabwysiadu'n ffurfiol i gefnogi'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2025.

## 3.9 Strategaethau Newid Hinsawdd

Mae yna fesurau yn Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 Sir Gaerfyrddin sy'n ymwneud â Newid Hinsawdd, yn benodol yn gysylltiedig â gweithredu a hyrwyddo'r defnydd o ynni adnewyddadwy a lleihau allbynnau carbon. Ym mis Chwefror 2019 mabwysiadodd Cyngor Sir Caerfyrddin gynnig di-garbon i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 i gefnogi amcan llesiant 12 'Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol'. Ers hynny, ni yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi cynllun gweithredu carbon sero net a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ym mis Chwefror 2020, sy'n amlinellu ein taith tuag at fod yn Awdurdod Lleol Carbon Sero Net erbyn 2030.

Mae'r cyfrifoldeb o gyflawni gwelliannau o'r fath yn gofyn am ddull cydweithredol â nifer o bartneriaid mewnol ac allanol, oherwydd bod yna lawer o ffactorau a all ddylanwadu ar ddarparu aer glân yn Sir Gaerfyrddin. Ceir crynodeb isod o'r prif themâu:

DRAFT




Mae pob thema yn y cynllun yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer creu polisïau, prosiectau a chynlluniau, i wahodd atebion hyblyg, cyd-fuddiol i fynd i'r afael â sbectrwm o faterion. Gall pob thema gyflawni cyfraniadau tuag at wella ansawdd aer ond gyda'i gilydd gall yr effeithiau hynny fod yn sylweddol. Efallai na fydd bob amser yn bosibl meintioli gostyngiadau allyriadau a briodolir yn uniongyrchol i weithredoedd penodol, gan y gall llawer o ffactorau gael dylanwad. Serch hynny, ein nod yw lleihau llygredd sy'n deillio o drafnidiaeth, tra'n galluogi a chefnogi ein trigolion i ddewis dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy a chynyddu eu teithio llesol.

Yn y pen draw, ein nod yw lleihau lefelau Nitrogen Deuocsid yn ein Trefi mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, nid yn unig i gyflawni'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol ond i wella ansawdd aer yn y Sir ar gyfer trigolion ac ymwelwyr. Rhaid bod ein hymdrechion yn gynaliadwy er mwyn parhau'r duedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn ei dro, byddwn felly yn helpu i leihau'r risg o salwch a achosir gan lygredd aer ac yn cefnogi ein hamcanion Llesiant.


## 3.10 Dosrannu Ffynonellau

Bwriedir i'r mesurau Ardal Rheoli Ansawdd Aer a gyflwynir yn yr adroddiad hwn gael eu targedu tuag at brif ffynonellau yr allyriadau o fewn ardal Cyngor Sir Caerfyrddin, sef Trafnidiaeth. Dosrannu ffynonellau yw lle mae cyfraniad pob ffynhonnell lygredig (e.e. dosbarth y cerbyd) yn cael ei amcangyfrif. Mae ymarferion dosrannu ffynonellau traffig wedi'u cynnal gan Gyngor Sir Caerfyrddin, yn unol â LAQM.TG (22).


Cynhaliwyd ymarfer dosrannu ffynonellau ar gyfer pob Ardal Rheoli Ansawdd Aer lle adroddwyd y darlleniadau $NO_2$ mwyaf uchel (ardaloedd problemus) yn Llandeilo, Caerfyrddin a Llanelli. Mae'r ymarfer hwn yn helpu i nodi'r prif ffynonellau NOx sy'n gysylltiedig â thraffig i helpu i ffocysu ein camau gweithredu. Mae'r siartiau cylch yn Ffigurau 3-1 i 3-3 isod yn dangos cyfraniadau cymharol allyriadau traffig ac yn dangos darlun eithaf gwahanol ym mhob ardal. Yn Heol Felinfoel mae'n debygol bod y rhan fwyaf o NOx yn dod o gerbydau nwyddau trwm, ond yn Heol y Priordy a Stryd Rhosmaen ceir yw'r prif ffynonellau.

DRAFT

**Ffigur 3-1 Dosrannu ffynonellau yn Heol Felinhoel, Llanelli**




**Ffigur 3-2 Dosrannu ffynonellau yn Heol y Prior, Caerfyrddin**




*Roedd Bysiau Lleol wedi'u cynnwys fel Cerbydau Nwyddau Trwm ar gyfer y cyfrif hwn

**Ffigur 3-3 Dosrannu ffynonellau yn Stryd Rhosmaen, Llandeilo**



## 3.11 Gostyngiad Gofynnol mewn Allyriadau

Yn y gorffennol mae wedi bod yn ofynnol i nodi'r gostyngiad sydd ei angen mewn $NO_2$ i gyflawni'r lefel amcanol o 40µg/$m^3$, fel cymedr blynyddol. Fodd bynnag, mae'r canllawiau polisi diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017 yn mynd ymhellach ac yn ei gwneud yn ofynnol i ni edrych ar leihau lefelau llygredd lle bynnag y bo modd (ac nid dim ond o fewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer dynodedig). Yn hytrach na chanolbwyntio ar gyflawni'r Amcan Ansawdd Aer yn unig. Bydd y gwaith dosrannu ffynonellau hefyd yn cael ei ddefnyddio i helpu i lywio ymyriadau posibl a allai arwain at welliant ar draws yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a thu hwnt. Mae cyfrifau traffig ychwanegol eisoes wedi dechrau a fydd o gymorth gyda gwaith dosrannu ffynonellau pellach, y bydd eu canlyniadau yn bwydo i mewn i'r asesiad o'r ymyriadau arfaethedig.

Mae'r gostyngiad gofynnol mewn allyriadau er mwyn bodloni'r Amcan Ansawdd Aer Cenedlaethol o 40µg/$m^3$ yn ein hardaloedd problemus wedi'i gyfrifo yn unol â Phennod 7 o Ganllawiau Technegol LAQM.TG22. Nid oes angen gostyngiadau pellach i gydymffurfio â'r amcanion cenedlaethol presennol, gan nad oes unrhyw ormodiant. Fodd bynnag, yw nod yw sicrhau bod y gydymffurfiaeth hon a'r lleihad mewn lefelau Nitrogen Deuocsid yn parhau er mwyn ein helpu i gyflawni targedau llymach newydd sy'n debygol yn y dyfodol.

## 3.12 Gwerthoedd canllaw ansawdd aer Sefydliad Iechyd y Byd ac amcanion ansawdd aer cenedlaethol presennol.

Mae amcanion ansawdd aer cenedlaethol Cymru yn cynrychioli trothwyon pragmatig y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â llygredd aer yn annerbyniol. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried aer sy'n cydymffurfio â'r amcanion o drwch blewyn yn 'lân' ac mae'n parhau i beri risgiau iechyd hirdymor. Po isaf yw'r crynodiad o lygryddion fel nitrogen deuocsid a mater gronynnol, yr isaf fydd y risgiau o effeithiau andwyol ar iechyd yn y boblogaeth sy'n agored iddynt. Felly, er bod cydymffurfio â'r amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn hanfodol, mae'n ddymunol cadw lefelau llygredd mor isel ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Mae yna gynlluniau i Lywodraeth Cymru adolygu'r amcanion targed Ansawdd Aer dros y blynyddoedd nesaf, ac mae'n debygol y bydd ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r canllawiau ansawdd aer a argymhellir gan Sefydliad Iechyd y Byd sy'n seiliedig ar iechyd a gafodd eu diweddaru yn 2021, ar ôl gosod safonau. Mae diweddariad 2021 yn adlewyrchu tystiolaeth well ar sut mae llygredd aer yn effeithio ar iechyd, hyd yn oed ar lefelau isel, darperir targedau interim hefyd i'w hystyried o gyflwyno cynllun gwella fesul cam i gyrraedd nodau.

**Tabl 3-2 Amcan Cenedlaethol Presennol a Thargedau Sefydliad Iechyd y Byd**

| **Llygrydd ($\mu g/m^3$)** | **Wedi'i fesur fel amser cyfartaledd** | **Canllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd 2005** | **Amcan Cenedlaethol** | **Targed Interim Sefydliad Iechyd y Byd** | | | **Lefel Canllawiau Ansawdd Aer Sefydliad Iechyd y Byd 2005** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **1** | **2** | **3** | |
| **Nitrogen deuocsid ($NO_2$)** | Cymedr 1 awr | 200 | 200 (ni ddylid mynd y tu hwnt i'r crynodiad hwn fwy na 18 o weithiau mewn blwyddyn) | - | | | 200 |
| | Cymedr 24 awr | - | - | 120 | 50 | - | 25* |
| | cymedr blynyddol | 40 | 40 | 40 | 30 | 20 | 10 |

Nid yw Sir Gaerfyrddin wedi rhagori ar yr amcan blynyddol cenedlaethol o 40$\mu g/m^3$ ers 2020 ac mae hefyd ar daflwybr i gydymffurfio â tharged interim 2 Sefydliad Iechyd y Byd o 30$\mu g/m^3$ ar gyfer 2024. Ni ystyriwyd bod 2020 a 2021 yn flynyddoedd cynrychiolіadol o ystyried y cyfyngiadau symud yn ystod Pandemig COVID 19, felly

DRAFT

mae'r blynyddoedd hyn wedi'u diystyru o'r diben o ddangos o leiaf dair blynedd gydymffurfiol yn olynol, ac yn is na 'chydymffurfiaeth ffiniol' o 36µg/m3. Bu ardaloedd yn y sir sydd wedi parhau i gydymffurfio yn ystod y blynyddoedd diwethaf; Heol y Prior, Caerfyrddin 2020 i 2023, Heol Felinfoel yn Llanelli 2021 i 2022 a Stryd Rhosmaen, Llandeilo yn 2019.

## 3.13 Blaenoriaethau Allweddol

Bydd y meysydd ffocws canlynol yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer gweithredu er mwyn cyflawni'r gostyngiad mwyaf mewn $NO_2$.

Ein nod yw cyflawni'r pedwar amcan allweddol canlynol:

**Tabl 3-3 Aliniad Amcanion a Blaenoriaethau**

| **Amcan** | **Blaenoriaethau wedi'u halinio** | **Disgrifiad o Flaenoriaethau** |
|---|---|---|
| **Amcan 1: Lleihau Tagfeydd** Camau gweithredu: gorfodi cadarn o Orchmynion Rheoleiddio Traffig, gwelliannau seilwaith, hyrwyddo teithio cynaliadwy (rhannu ceir, teithio llesol, "cerdded y filltir olaf"). | **Blaenoriaeth 1 - Rheoli Traffig a Gwella Seilwaith**<br>**Blaenoriaeth 4a - Trafnidiaeth Allyriadau Isel (Ffocws ar Dagfeydd)** | **Blaenoriaeth 1:** Optimeiddio signalau, ailgynllunio ffyrdd, astudiaethau dichonoldeb ffordd osgoi i wella llif a lleihau segura/allyriadau.<br>**Blaenoriaeth 4a:** Annog cerbydau modern, allyriadau isel (e.e., Gwasanaethau eBus 100%), achrediad cludo ECO Stars, prosiectau seilwaith sy'n cefnogi lleihau tagfeydd. |

| **Amcan** | **Blaenoriaethau wedi'u halinio** | **Disgrifiad o Flaenoriaethau** |
|---|---|---|
| **Amcan 2: Newid Dulliau Teithio**<br>Camau gweithredu: hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus (Metro rhanbarthol), rheoli galw (parcio arhosiad byr), teithio llesol, llwybrau mwy diogel i ysgolion, cynllunio trafnidiaeth gynaliadwy. | **Blaenoriaeth 2 - Hyrwyddo Teithio Cynaliadwy a Llesol**<br>**Blaenoriaeth 3 - Rheolaeth ar Gludo a Dosbarthu Nwyddau**<br>**Blaenoriaeth 5 - Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Ymwybyddiaeth (Newid Ymddygiad)** | **Blaenoriaeth 2:** Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus, rhwydweithiau teithio llesol, cynlluniau parcio a theithio.<br>**Blaenoriaeth 3:** Ailgyfeirio cerbydau nwyddau trwm, rheoliadau amser cyflenwi i leihau tagfeydd brig a chreu lle ar gyfer newid dulliau teithio.<br>**Blaenoriaeth 5:** Ymgyrchoedd i hyrwyddo ymddygiadau trafnidiaeth gynaliadwy a defnyddio dewisiadau amgen yn lle teithio mewn car. |
| **Amcan 3: Gwella Ansawdd Aer**<br>Camau gweithredu: hyrwyddo cerbydau allyriadau isel iawn, rheolaethau mwg (e.e., stofiau llosgi coed), mentrau seilwaith gwyrdd. | **Blaenoriaeth 4b - Trafnidiaeth Allyriadau Isel (Ffocws ar Ansawdd Aer)**<br>**Blaenoriaeth 5 - Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Ymwybyddiaeth**<br>**Blaenoriaeth 6 - Integreiddio Polisi a Chynllunio** | **Blaenoriaeth 4b:** Seilwaith gwefru cerbydau trydan, trawsnewid fflyd i drydan/allyriadau isel, cymhellion ar gyfer mabwysiadu cerbydau trydan.<br>**Blaenoriaeth 5:** Ymgyrchoedd addysg ac ymwybyddiaeth ar strategaethau llygredd a lleihau aer.<br>**Blaenoriaeth 6:** Amodau |

| Amcan | Blaenoriaethau wedi'u halinio | Disgrifiad o Flaenoriaethau |
|---|---|---|
| | | cynllunio ar gyfer strategaethau allyriadau isel mewn datblygiadau newydd, rheolaethau safleoedd adeiladu, polisïau datblygu trefol cynaliadwy. |
| **Amcan 4: Monitro, Data a Llywodraethu**<br>Camau gweithredu: casglu data cadarn, modelu ansawdd aer/trafnidiaeth, Grŵp Llywio Cynllunio Gweithredu Ansawdd Aer i oruchwylio cyflawni camau. | **Blaenoriaeth 7 - Monitro, Data a Llywodraethu**<br>**Blaenoriaeth 6 - Integreiddio Polisi a Chynllunio (rôl gymorth)** | **Blaenoriaeth 7:** Systemau monitro ansawdd aer a thraffig, dangosfyrddau data amser real, defnyddio data i lywio ac addasu strategaethau.<br>**Blaenoriaeth 6 (rôl gymorth):** Sicrhau bod penderfyniadau polisi yn cael eu llywio gan fewnwelediadau data parhaus a chanlyniadau modelu. |

# 4. Datblygu a Gweithredu Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer Cyngor Sir Caerfyrddin

## 4.1 Ymgynghoriad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer hwn, rydym wedi gweithio gydag awdurdodau lleol eraill, asiantaethau, busnesau a'r gymuned leol i wella ansawdd aer lleol. Mae Atodlen 11 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â'r cyrff a restrir yn Nhabl 4.1. Yn ogystal, rydym wedi ymgysylltu â'r rhanddeiliaid canlynol:

- Hysbysebwyd ar Wefan y Cyngor
- Hysbysiadau ar y Cyfryngau Cymdeithasol
- Erthyglau yn y papur newydd lleol

Rhoddir yr ymateb i'n hymgynghoriad ymgysylltu â rhanddeiliaid yn Atodiad : Ymateb i Ymgynghoriad.

*Tabl 1. - Ymgynghoriad wedi'i gynnal*

| Ymgynghorai | Yr Ymgynghoriad a Gynhaliwyd |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru (Adain yr Aer) | <Oes / Nac oes> |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | <Oes / Nac oes> |
| Yr Awdurdod Priffyrdd | <Oes / Nac oes> |
| Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru | <Oes / Nac oes> |
| Yr holl Awdurdodau Lleol cyfagos | <Oes / Nac oes> |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | <Oes / Nac oes> |

DRAFT

| Ymgynghorai | Yr Ymgynghoriad a Gynhaliwyd |
|---|---|
| Cynghorwyr Tref a Lleol | <Oes / Nac oes> |
| Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau busnes lleol a sefydliadau eraill fel y bo'n briodol | <Oes / Nac oes> |

## 4.2 Grŵp Llywio

Lluniwyd Grŵp Llywio'r Cynllun Gweithredu yn dilyn datgan yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. Mae'n cynnwys aelodau o

| | |
|---|---|
| Trafnidiaeth a Phriffyrdd | Rheolwr y Strategaeth a Seilwaith,<br>Rheolwr Fflyd<br>Cynllunydd Trafnidiaeth<br>Rheolwr Strategol Gwasanaethau Trafnidiaeth Integredig<br>Cydgysylltydd Moderneiddio Trafnidiaeth<br>Rheolwr Strategol Seilwaith Priffyrdd a Rhwydwaith<br>Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd<br>- Rheolwr Gweithrediadau Cludiant Teithwyr<br>- Priffyrdd a Thrafnidiaeth, Trafnidiaeth a Pheirianneg |
| Adran Gwastraff | Trawsnewid Gwastraff<br>- Rheolwr y Gweithrediadau Gwastraff |
| Rheoli Datblygu | Rheoli Datblygu, |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Datblygu Economaidd | Rheolwr Datblygu Economaidd<br><br>Cydgysylltydd Canol Tref Rhydaman a Chaerfyrddin<br><br>Datblygu Economaidd |
| Addysg | Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant |
| Tîm Trawsnewid | Rheolwr Trawsnewid |
| Polisi Strategol a Chreu Lleoedd | Blaengynllunio ac Adfywio Swyddog Lleihau Carbon<br><br>Swyddog Bioamrywiaeth<br><br>Gwyrddu Sir Gâr: Cydgysylltydd Prosiect |
| Y Tîm Trwyddedu | Swyddogion Trwyddedu |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | |
| Hywel Dda | |

Cytunodd y Grŵp y byddai Cynllun Gweithredu cyfunol yn fuddiol i'r 3 Ardal Rheoli Ansawdd Aer yn Sir Gaerfyrddin.

Perfformiodd y Grŵp Cynllun Gweithredu sesiwn bwrw syniadau i lunio rhestr o ymyriadau posibl a allai helpu i wella ansawdd yr aer. Trefnwyd y rhestr yn y rhai a oedd yn berthnasol i'r 3 Ardal Rheoli Ansawdd Aer.

Cafodd y sylwadau a'r awgrymiadau a gafwyd drwy'r ymgynghoriad eu hasesu a, lle y bo'n bosibl, eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu. Roedd yr ymgynghoriad yn ddefnyddiol o ran cael awgrymiadau nad oeddent wedi'u hystyried o'r blaen, ac mae'r Grŵp Llywio'r Cynllun Gweithredu yn ddiolchgar iawn i'r rheiny a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad. Bydd pob cynnig yn destun ystyriaeth ac ymchwil gofalus er mwyn canfod a yw'n ddichonadwy ei weithredu. Gall y canlyniad olygu na fydd modd cyflawni rhai ohonynt.



DRAFT

Bydd Grŵp Llywio'r Cynllun Gweithredu yn parhau i fod yn weithgor gweithredol sy'n cydlynu ac yn goruchwylio gweithrediad amrywiol gynigion y Cynllun Gweithredu. Mae partneriaid allweddol y grŵp wedi'u nodi er mwyn cyflawni neu asesu camau gweithredu sy'n cyfateb i'w rôl. Bydd y data a gesglir o'r broses weithredu yn cael ei ddogfennu a'i adolygu gan y Grŵp er mwyn canfod manteision pob cynnig, ynghyd ag asesu a oes unrhyw effeithiau negyddol wedi bod. Ystyrir bod y Cynlluniau Gweithredu yn ddogfennau 'byw', sy'n debygol o ddatblygu dros amser ac felly cânt eu hadolygu'n rheolaidd. Cynigir bod yr adolygiad yn cael ei gynnal fel rhan o'r gofynion adrodd blynyddol i Lywodraeth Cymru o dan y broses Rheoli Ansawdd Aer Lleol.

# 5. Mesurau'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer

Table 5-1 yn dangos mesurau Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'n cynnwys:

- rhestr o'r camau gweithredu sy'n ffurfio rhan o'r cynllun
- yr unigolyn cyfrifol a'r adrannau/sefydliadau a fydd yn cyflawni'r cam gweithredu hwn
- amcangyfrif o'r gost o weithredu pob cam gweithredu (cost gyffredinol a chost i'r awdurdod lleol)
- y fantais ddisgwyliedig o ran y llygredd a gaiff ei allyrru a/neu leihad mewn crynodiad
- yr amserlen ar gyfer gweithredu
- sut y bydd cynnydd yn cael ei fesur

**Noder:** Gweler Adroddiadau Cynnydd Blynyddol y dyfodol i gael diweddariadau blynyddol rheolaidd ar weithredu'r mesurau hyn

DRAFT

**Tabl 5.1 - Mesurau Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer**

| Rhif | Mesur | Blaenoriaeth | Categori |
|---|---|---|---|
| 1 | Monitro cynnydd cerbydau allyriadau isel iawn yn fflyd y sector cyhoeddus | Blaenoriaeth 2 - Hyrwyddo Teithio Cynaliadwy a Llesol<br>Blaenoriaeth 4 - Mentrau Trafnidiaeth Allyriadau Isel | Effeithlonrwydd Fflyd Cerbydau |
| 2 | Datblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd ar gyfer yr Awdurdod Lleol | Blaenoriaeth 6 - Integreiddio Polisi a Chynllunio | Canllawiau Polisi a Rheoli Datblygu |
| 3 | Cyflwyno seilwaith gwyrdd neu gynlluniau plannu trefol | Blaenoriaeth 6 - Integreiddio Polisi a Chynllunio | Canllawiau Polisi a Rheoli Datblygu |
| 4 | Monitro gwelliannau i broblemau parcio ceir yn Ysbyty Glangwili. | Blaenoriaeth 2 - Hyrwyddo Teithio Cynaliadwy a Llesol | Rheoli Traffig |
| 5 | Nifer o hwyluswyr 'Clwb Ceir' yn y Sir gyda cherbydau trydan<br>. | Blaenoriaeth 2 - Hyrwyddo Teithio Cynaliadwy a Llesol<br>Blaenoriaeth 4 - Mentrau Trafnidiaeth Allyriadau Isel | Dewisiadau eraill yn hytrach na defnydd o geir preifat |
| 6 | Hyrwyddo negeseuon Ansawdd Aer i ddefnyddwyr y ffordd. | Blaenoriaeth 5 - Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Ymwybyddiaeth | Gwybodaeth i'r Cyhoedd a Rheoli Traffig |
| 7 | Lleihau llygredd a thagfeydd yng nghanol tref Llandeilo drwy gyflwyno system unffordd ar y cyd â ffordd liniaru. | Blaenoriaeth 1 - Rheoli Traffig a Gwella Seilwaith<br>Blaenoriaeth 3 - Rheolaeth ar Gludo a Dosbarthu Nwyddau | Rheoli Traffig |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8 | Asesu'r gwaith o gael gwared ar faeau parcio ar hyd Stryd Rhosmaen a Stryd y Bont | Blaenoriaeth 1 - Rheoli Traffig a Gwella Seilwaith | Rheoli Traffig |
| 9 | Gwelliannau ar Stryd Rhosmaen - lledu palmentydd, seilwaith gwyrdd | Blaenoriaeth 1 - Rheoli Traffig a Gwella Seilwaith | Rheoli Traffig |
| 10 | Cyflwyno cynllun llogi beiciau ar gyfer Tref Llandeilo | Blaenoriaeth 2 - Hyrwyddo Teithio Cynaliadwy a Llesol<br>Blaenoriaeth 4 - Mentrau Trafnidiaeth Allyriadau Isel | Cynllunio trafnidiaeth a seilwaith<br>Hyrwyddo dewisiadau teithio eraill |
| 11 | Datblygu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Ansawdd Aer | Blaenoriaeth 6 - Integreiddio Polisi a Chynllunio | Canllawiau Polisi a Rheoli Datblygu |
| 12 | Archwilio'r opsiwn o gynllun ECO Stars ar gyfer y Sir a hyrwyddo defnydd i weithredwyr fflyd | Blaenoriaeth 4 - Mentrau Trafnidiaeth Allyriadau Isel | Effeithlonrwydd Fflyd Cerbydau |
| 13 | Hysbysebu swyddfeydd sydd â chyfleusterau ar gyfer beicwyr. | Blaenoriaeth 2 - Hyrwyddo Teithio Cynaliadwy a Llesol<br>Blaenoriaeth 4 - Mentrau Trafnidiaeth Allyriadau Isel | Hyrwyddo dewisiadau teithio eraill |
| 14 | Cynyddu darpariaeth parcio beiciau ledled y sir a darparu gorsafoedd atgyweirio beiciau cyhoeddus | Blaenoriaeth 2 - Hyrwyddo Teithio Cynaliadwy a Llesol<br>Blaenoriaeth 4 - Mentrau Trafnidiaeth Allyriadau Isel | Hyrwyddo dewisiadau teithio eraill |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15 | Hyrwyddo Gorsafoedd Gwefru E-Feiciau | Blaenoriaeth 2 - Hyrwyddo Teithio Cynaliadwy a Llesol17Blaenoriaeth 4 - Mentrau Trafnidiaeth Allyriadau Isel | Hyrwyddo dewisiadau teithio eraill |
| 16 | Llwybrau teithio llesol gwell (Cerdded a beicio) | Blaenoriaeth 2 - Hyrwyddo Teithio Cynaliadwy a Llesol<br>Blaenoriaeth 4 - Mentrau Trafnidiaeth Allyriadau Isel | Hyrwyddo dewisiadau teithio eraill |
| 17 | Opsiynau modelu traffig ar gyfer lleihau traffig drwy Heol y Prior | Blaenoriaeth 1 - Rheoli Traffig a Gwella Seilwaith<br>Blaenoriaeth 3 - Rheolaeth ar Gludo a Dosbarthu Nwyddau | Rheoli Traffig |
| 18 | Ystyried opsiynau cynaliadwy i leihau tagfeydd ar hyd yr A484, Gorllewin Llanelli (Coridor Heol y Sandy) gan annog newidiadau i ddulliau teithio cynaliadwy | Blaenoriaeth 1 - Rheoli Traffig a Gwella Seilwaith | Rheoli Traffig |
| 19 | Darparu seilwaith gwefru cerbydau trydan yn y Sir | Blaenoriaeth 2 - Hyrwyddo Teithio Cynaliadwy a Llesol<br>Blaenoriaeth 4 - Mentrau Trafnidiaeth Allyriadau Isel | Hyrwyddo Trafnidiaeth Allyriadau Isel |
| 20 | Hyrwyddo beicio a cherdded i'r ysgol yn fwy. | Blaenoriaeth 2 - Hyrwyddo Teithio Cynaliadwy a Llesol<br>Blaenoriaeth 5 - Ymgysylltu â'r Cyhoedd ac Ymwybyddiaeth | |
| 21 | Lle mae parcio anghyfreithlon sy'n achosi tagfeydd, cynyddu gorfodi traffig / patrolau | | |

( **Nodyn Mewnol**) Pan fydd y mesurau uchod wedi'u cytuno, bydd angen eu mewnosod yn y cynllun Tabl isod

DRAFT


| Rhif y Mesur | Mesur | Categori | Dosbarthiad | Amcangyfrif o'r Mesur Blwyddyn i'w Gyflwyno | Blwyddyn Cwblhau Disgwyliedig / Gwirioneddol | Y Cyrff sy'n Gysylltiedig | Ffynhonnell y Cyllid | Cyllid Grant Ansawdd Aer Defra | Statws Cyllido | Amcangyfrif o Gost y Fesur | Statws y Mesur | Targed Lleihau mewn Llygryddion / Allyriadau o'r Mesur | Dangosydd Perfformiad Allweddol | Cynnydd Hyd yn Hyn | Sylwadau / Rhwystrau Posibl i Weithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |


DRAFT

# 6. Atodiad A:


**Atodiad A - Graffiau sy'n dangos tueddiadau ansawdd aer ($NO_2$) yn yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a'r safleoedd gyda'r canlyniadau uchaf ym mhob Ardal Rheoli Ansawdd Aer.**


## <u>Llanelli</u>








## Caerfyrddin




## Llandeilo


Llandeilo AQMA
NO2 Annual Mean Concentration (µg/m3)
45
40
35
30
25
20
15
10
5
0
North roundabout (No 8 Rhosmaen St)
Rhosmaen Street (No 15) (north)
Rhosmaen Street (No. 69)
Rhosmaen Street (No. 87)
Llandeilo - Rhosmaen Street
Rhosmaen Street (Evans Butchers)
Rhosmaen Street (Castle Hotel)
Llandeilo - Rhosmaen Street (2)
Rhosmaen Street (No. 123)
Rhosmaen Street (No. 133) (Craft...
Rhosmaen Street (No. 74) (Style Shop)
Stryd Y Brenin (Travel House)
Rhosmaen Street (Park Area)
Rhosmaen Street (Bin post by Bus...
Bridge Street (N Trust) (south)
Diffusion Tube ID
2019
2020
2021
2022
2023
2024
AQS Objective



Stryd Rhosmaen (No. 123)
NO2 Annual Mean Concentration (µg/m3)
60
50
40
30
20
10
0
54
48.6
45.8
46
46.4
43.4
45.5
42.0
40.1
38.6
29.4
32.6
30.9
28.2
25.8
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023
2024
Year

# 7. Atodiad B: Mapiau o Ffiniau Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer


**Ffigur B.1 – Map o Ffiniau Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llandeilo**



**Ffigur B.2 – Map o Ffiniau Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin**



**Ffigur B.3 – Map o Ffiniau Ardal Rheoli Ansawdd Aer Llanelli**



# 8. Atodiad C Ymateb i'r Ymgynghoriad

**Tabl C.1 - Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad a'r ymarfer Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ynglŷn â'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer**

| Ymgynghorai | Categori | Ymateb |
|---|---|---|
| <Nodwch ymgynghorai e.e. Y Siambr Fasnach> | <Nodwch gategori e.e. Busnes> | <Nodwch destun e.e. Anghytuno â'r cynllun i gael gwared ar barcio ar y Stryd Fawr o blaid bysiau a beiciau; ystyried y bydd yn niweidio busnes aelodau> |
| | | |

DRAFT

# 9. Atodiad D: Rhesymau dros Beidio â Dilyn Mesurau'r Cynllun Gweithredu

**Tabl D.1 – Mesurau'r Cynllun Gweithredu Nad Ydynt yn cael eu Dilyn a'r Rhesymau dros y Penderfyniad hwnnw**

| Categori'r cam gweithredu | Disgrifiad o'r cam gweithredu | Y rheswm pam nad yw'r cam gweithredu yn cael ei gymryd (gan gynnwys barn Rhanddeiliaid) |
|---|---|---|
| <Dewiswch o'r categorïau yn y blwch cyfarwyddiadau glas uchod> | <Nodwch ddisgrifiad o'r mesur> | <Rhowch destun yma> |
| | | |

DRAFT

# 10. Atodiad E: Ychwanegwch Atodiadau Ychwanegol yn ôl yr Angen>

**CYFARWYDDIADAU**

Dylai'r Cyngor ychwanegu atodiadau ategol ychwanegol yn ôl yr angen.

Er enghraifft, lle mae'r dewis o fesurau Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer wedi'i gefnogi gan astudiaethau pellach, e.e. gwerthusiad meintiol o fesurau cynllun gweithredu drwy fodelu gwasgariad, neu astudiaethau dichonoldeb eraill, dylid cynnwys y gwaith hwn yma.

**Dilëwch y blwch hwn ar ôl cwblhau'r ddogfen**

DRAFT

# Rhestr Termau

| Talfyriad | Disgrifiad |
| --- | --- |
| AQAP | Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer – Disgrifiad manwl o fesurau, canlyniadau, dyddiadau cyflawni a dulliau gweithredu, yn dangos sut mae'r awdurdod lleol yn bwriadu bodloni gwerthoedd ansawdd aer |
| Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) | Ardal Rheoli Ansawdd Aer - Ardal lle mae crynodiadau llygryddion aer yn uwch na / yn debygol o fod yn uwch na'r amcanion ansawdd aer perthnasol. Mae Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn cael eu datgan ar gyfer llygryddion ac amcanion penodol |
| AQS | Strategaeth Ansawdd Aer |
| ASR | Adroddiad Statws Ansawdd Aer Blynyddol |
| DEFRA | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| LAQM | Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol |
| $NO_2$ | Nitrogen Deuocsid |
| $NO_x$ | Nitrogen Ocsid |
| $PM_{10}$ | Deunydd gronynnol yn yr aer gyda diamedr aeroddynamig o 10µm (micrometrau neu ficronau) neu lai |
| $PM_{2.5}$ | Deunydd gronynnol yn yr aer gyda diamedr aeroddynamig o 2.5µm neu lai |

DRAFT

Cyfeirnodau

DRAFT

DRAFT